

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHERN
COFNODION CYFARFOD RHAGFYR 2020
7 Rhagfyr 2020 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Nia Povey, Glyn Griffiths, Elin Jones, Dion Roberts, Elin Jones, Eleri Owen, Richard Jones

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Dafydd Watts

2. Datgan Diddordeb

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Watts ddiddordeb yn eitem 5.1 oherwydd ei fod yn byw dros y ffordd i Gae Isaf Carreg Frech.

3. Ymddiheuriadau

Dion Roberts

4. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 2 Tachwedd 2020

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Nia Povey

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech

Trafodwyd ymateb y Cyngor cymuned i'r Arolwg Anghenion Tai Lleol a baratowyd gan Cynefin.

Cytunwyd fod angen am dai yn ardal Llanfrothen i bobl leol, a'i bod hi'n bwysig pwysleisio'r elfen leol hyn.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Cynefin efo sylwadau'r Cyngor cymuned, ac unwaith i'r Arolwg gael ei gyhoeddi yn ei ffurf derfynol, gallasid bwrw ymlaen i drefnu cyfarfod cyhoeddus tua diwedd Ionawr er mwyn trafod y mater ymhellach.

5.2 13 Garreg Frech

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan fod swyddfa Helen Mary Jones A.S. wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd ar y mater ers 7 Hydref 2020, ond ni chafwyd unrhyw ymateb.

5.3 Y Ganolfan

Er gwaethaf gohebu niferus efo adran drethi Cyngor Gwynedd ers rhai wythnosau, parheir i ddisgwyl ymateb. Yn yr un modd, mae adran eiddo Cyngor Gwynedd wedi cytuno'n anffurfiol i ddanfôn aelod o staff i edrych ar gyflwr yr adeilad, ond er gwaethaf ceisio trefnu hyn niferoedd o weithiau, parheir i ddisgwyl trefniant pendant.

5.4 Mynwent Tan Lan

Mae'r wal ar hyd gwaelod y fynwent wedi chwalu a defaid wedi bod yn dod i mewn i'r fynwent. Yn ôl y gweithredoedd, y cyngor cymuned sy'n gyfrifol am derfynau'r fynwent.

Cytunwyd i gael pris ar gyfer gosod ffens newydd ar hyd wal derfyn gwaelod y fynwent. Mae'r hyd angenrheidiol rhwng 100 a 300m.

5.5 Goryrru Llanfrothen

Wedi mynd ar ôl Gan Bwyll a disgwyl clywed gan Ymddiriedolwyr Brondanw am hawl i osod manecwin ger y gofgolofn er mwyn arafu traffig.

Pe byddai manecwin yn cael ei osod, byddai angen gwneud yn siŵr nad fyddai'n edrych fel plismon, ond yn hytrach fel swyddog sy'n gwisgo siaced felen, fel nad oes neb yn cael eu camarwain i feddwl mai plismon ydyw.

5.6 Pont Ysgol Croesor

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi cytuno i osod pont newydd yn lle'r un bresennol sydd wedi pydru ac sy'n mynd o'r maes parcio yng Nghroesor at yr ysgol.

5.7 Pont Afon Ceunant

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn archwilio'r bont a byddant yn adrodd ar ganlyniad yr archwiliad yn fuan.

5.8 Polisiâu'r Cyngor Cymuned

Cytunwyd i drafod polisi cyflogaeth y Clerc yng nghyfarfod mis Ionawr.

5.9 Cyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw

Bwriedir cynnal cyfarfod ymddiriedolwyr Brondanw efo cynrychiolwyr y cyngor cymuned drwy gyfrwng Zoom ar 15 Rhagfyr 4:30 pm

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Tachwedd 2020 - £214.20

TWE £53.60

6.2 Michael Kerr, claddu baban £150.00 anfoneb 11 Tachwedd 2020

6.3 Pritchard & Griffiths derbyn tâl claddedigaeth £1,700 a £850.00

6.4 Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2018/19

Cytunwyd i drafod hwn yng nghyfarfod Ionawr 2020

6.5 Cytuno ar braesept 2020/21

Trafodwyd y praesept ar gyfer 2021/22 ac fe gytunwyd i'w drafod eto yng nghyfarfod mis Ionawr.

Cytunwyd i wneud y taliadau uchod.

7. Gohebiaeth

Hwb@drefwerdd

Cafwyd diweddariad gan Lauren Hill ar brosiectau'r Dref Werdd. Derbyniwyd er gwybodaeth.

8. Ceisiadau Cynllunio

Cais cynllunio Rhiw Goch Penrhyndeudraeth - trosi i uned wyliau.

Penderfynwyd cefnogi'r cais yma.

Cynnig: Llio Griffiths

Eilio: Glyn Griffiths

9. Materion Eraill

9.1` Grant Chwarae

Mae grant ar gael gan Gyngor Gwynedd ar gyfer adnewyddu offer chwarae neu osod offer chwarae newydd a gwella.

Cytunwyd y dylid danfon manylion y grant at Adra gan ddweud pe byddai yna ddatblygiad pellach yn Garreg Frech, yna mi fyddai llefydd mae'r plant yn ei ddefnyddio i chwarae ar hyn o bryd yn cael ei golli.

Yn ogystal, mae'r offer sydd ar gael ar hyn o bryd mewn cyflwr sâl ac angen eu hadnewyddu.

9.2 Cynnig i gefnogi Yes Cymru

Cytunwyd yn unfrydol i gynnig gan y Cynghorydd Llio Griffiths i gefnogi ymgyrch Yes Cymru.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Dafydd Watts

9.3 Cystadleuaeth Nadolig

Cytunwyd ar gystadleuaeth i wobrwyo'r ffenestr fyddai wedi ei haddurno orau yng nghymuned Llanfrothen. Dyddiad cau 20 Rhagfyr 2020 a'r gwobrau yn dalebau gwerth £30, £15, £10 i'w gwario yn lleol.

9.4 Tir rhent yn Llanfrothen

Trafodwyd y tir sydd ar les i'r Cyngor cymuned ym mhentref Llanfrothen. Penderfynwyd cael cyngor gan Un Llais Cymru ar y sefyllfa.

9.5 Cynrychiolaeth ar Bwyllgor Rhanddeiliaid Atomfa Trawsfynydd

Penderfynwyd gweld a fyddai gan y Cynghorydd Dion Roberts ddiddordeb i gynrychioli'r Cyngor cymuned ar y pwyllgor hwn yng nghyfarfod mis Ionawr.

9.6 Croesffordd Wern a'r B4410

Mae dŵr yn llifo i lawr o'r Wern am y groesffordd efo'r B4410. Mae'n debyg fod ffos wedi ei hagor a phroblem o dan y ffordd ac unlle i'r dŵr fynd. Does dim dŵr wedi bod yno o'r blaen, a gallai fod yn sefyllfa beryglus pe byddai'r dŵr yn rhewi.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddyn nhw ymchwilio i'r sefyllfa.

9.7 Diogelwch tro Morfa i Dŷ Mawr

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gam ofyn iddyn nhw edrych ar ddiogelwch y ffordd yn y fan hyn. Mae car wedi mynd i'r clawdd o'r blaen, a'r wal wedi ei tharo, a byddai'n syniad da edrych ar ffyrdd o rybuddio gyrwyr o'r peryglon yn y fan hyn neu i arafu'r traffig.

9.8 Cinio Nadolig Siop

Mae Siop a Chaffi Llanfrothen yn bwriadu gwneud tua 50 o brydau Nadolig ar gyfer trigolion lleol.

Cytunwyd i gyfrannu £5 y pen sef £250. Danfon rhestr etholwyr ymlaen i helpu adnabod pawb sy'n fregus.

Cynnig: Elin Jones

Eilio: Glyn Griffiths

| |
|--|
| <p>Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell – 1 Chwefror 2021 am 7:30 yr hwyr. Bydd y cyfarfod yma yn gyfarfod blynyddol hefyd.</p> |
|--|

